# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd o 22 i 28 Chwefror 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

3 Cwestiynau ar Ddatblygu Economaidd i Brif Weinidog Cymru

4 Cwestiynau i'r Trefnydd

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

9 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

10 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

13 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

18 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Gwledydd yr Ymwelwyd â hwy ar Fusnes y Llywodraeth

**Nick Bourne:** Pa wledydd y mae Prif Weinidog Cymru wedi ymweld â hwy ar fusnes y Llywodraeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a beth oedd cost yr ymweliad? (WAQ16010)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Dyma restr gyflawn o'r gwledydd yr ymwelodd Gweinidogion y Cabinet â hwy ar fusnes y llywodraeth rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2001. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys ymweliadau â Brwsel ar fusnes y Cynulliad.

| **Gweinidog** | **Dyddiad/au** | **Cyrchfan** |
|---|---|---|
| **Andrew Davies** | 9 Mawrth 2001 | Paris |
| | 5-6 Ebrill 2001 | Paris |
| | 30 Mai-1 Mehefin 2001 | Gothenburg |
| | 25-26 Hydref 2001 | Lille |
| **Jane Hutt** | 14-15 Mai 2001 | Genefa |
| | 25-26 Medi 2001 | Gastein, Awstria |
| **Michael German** | 1-3 Ebrill 2001 | Amsterdam a'r Almaen |
| | 13-19 Mai 2001 | Toronto, Canada |
| **Rhodri Morgan** | 9-17 Mehefin 2001 | Yr Ariannin a Chile |
| | 28 Awst-6 Medi 2001 | San Francisco a Los Angeles |
| | 15-20 Medi 2001 | De Affrica |
| | 18-20 Rhagfyr 2001 | Warsaw/Silesia, Gwlad Pŵyl |
| **Sue Essex** | 18-20 Medi 2001 | Sweden |
| **Carwyn Jones** | 14-15 Hydref 2001 | Cologne |
| **Jenny Randerson** | 20-21 Mehefin 2001 | Lwcsembwrg |
| | 18-22 Tachwedd 2001 | Efrog Newydd |
| **Edwina Hart** | Dim ymweliadau tramor | |
| **Jane Davidson** | 16-23 Medi 2001 | Canada |

Nid yw'r gweithdrefnau ariannol sydd gennym ar hyn o bryd yn golygu bod modd gwahaniaethu'n gywir rhwng costau teithio a chostau cynhaliaeth Gweinidogion pan fyddant dramor. £123,486 oedd cyfanswm y gwariant ar deithio a threuliau dros y cyfnod dan sylw. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys holl gostau teithio a chynhaliaeth Gweinidogion a'u swyddogion cefnogi, gartref a thramor.

O fis Ebrill eleni ymlaen, cyflwynir systemau ariannol newydd a fydd yn golygu bod modd dosrannu costau yn gywir i unigolion yn ôl y math o wariant.

### Ymweliadau Tramor Swyddogol y Llywodraeth

**Nick Bourne:** Pa ddigwyddiadau neu gyfarfodydd gwleidyddol y mae Prif Weinidog Cymru wedi bod yn bresennol ynddynt yn ystod ymweliadau tramor swyddogol y Llywodraeth dros y flwyddyn ddiwethaf? (WAQ16019)

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fu Gweinidogion y Cabinet mewn unrhyw ddigwyddiadau na chyfarfodydd gwleidyddol yn ystod ymweliadau tramor swyddogol y Llywodraeth y llynedd.

## Cwestiynau ar Ddatblygu Economaidd i Brif Weinidog Cymru

### Cymhorthdal Recriwtio i Gyflogwyr

**Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad pellach er mwyn egluro defnydd a diben y ‘cymhorthdal recriwtio i gyflogwyr’ a grybwyllwyd yn WAQ15408? (WAQ15491)

**Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad yn egluro pa gymorth sydd ar gael o dan y cymhorthdal recriwtio i gyflogwyr, fel a grybwyllwyd yn WAQ15408? (WAQ15492)

**Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y modd y caiff y cymhorthdal recriwtio i gyflogwyr ei ariannu, fel a grybwyllwyd yn WAQ15408? (WAQ15494)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Mae’r cymhorthdal recriwtio i gyflogwyr yn rhan annatod o becyn cefnogaeth Dysgu ac Addysgu Cymru sydd ar gael i gynorthwyo cwmnïau i gyflogi unigolion sydd wedi colli eu gwaith. Ei nod yw helpu pobl i ddychwelyd at waith cyn gynted ag y bo modd drwy gynorthwyo cyflogwyr gyda’r costau sydd ynghlwm â chyflogi a hyfforddi gweithwyr newydd.

Fel rhan o’i ymateb i ddiswyddiadau Corus, mae ELWa yn darparu £1,950 i gyflogwr sy’n penodi rhywun heb y sgiliau perthnasol angenrheidiol. Caiff y taliadau eu gwneud fesul camau wrth i’r penodiad a’r hyfforddiant fynd rhagddynt. Dim ond ar ôl i’r person gael ei gyflogi am 39 wythnos y bydd y taliad terfynol yn daladwy.

### Gwledydd yr Ymwelwyd â hwy ar Fusnes y Llywodraeth

**Nick Bourne:** Pa wledydd y mae Prif Weinidog Cymru wedi ymweld â hwy ar fusnes y Llywodraeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a beth oedd cost yr ymweliad? (WAQ16009) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan Brif Weinidog Cymru ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ16010.

### Ymweliadau Tramor Swyddogol y Llywodraeth

**Nick Bourne:** Pa ddigwyddiadau neu gyfarfodydd gwleidyddol y mae Prif Weinidog Cymru wedi bod yn bresennol ynddynt yn ystod ymweliadau tramor swyddogol y Llywodraeth dros y flwyddyn ddiwethaf? (WAQ16018)

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fu Gweinidogion y Cabinet mewn unrhyw ddigwyddiadau na chyfarfodydd gwleidyddol yn ystod ymweliadau tramor swyddogol y Llywodraeth y llynedd.

### Rheilffordd Dreftadaeth Ynys y Barri

**Michael German:** O ba gronfa ariannu y daeth y cymorth o £500,000 ar gyfer rheilffordd dreftadaeth Ynys y Barri? (WAQ16051)

**Prif Weinidog Cymru:** Daeth y gefnogaeth ar gyfer cam tri estyniad y rheilffordd stêm at lan y dŵr y Barri drwy’r gronfa adfywio lleol ar gyfer prosiectau awdurdod lleol heb arian cyfatebol.

## Cwestiynau i’r Trefnydd

### Datblygu Technoleg Gwybodaeth ac Electronig

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch yr effeithiau ar ddatblygu technoleg gwybodaeth ac electronig o ganlyniad i’r dirywiad yn ein diwydiannau gweithgynhyrchu? (WAQ16000)

**Y Trefnydd (Andrew Davies):** Mae’r diwydiant gweithgynhyrchu yn rhan bwysig iawn o economi Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwybodol o bwysigrwydd sylfaen gweithgynhyrchu gadarn mewn perthynas â datblygu technoleg gwybodaeth ac electronig ac mae’n awyddus i annog gweithgynhyrchwyr i sicrhau bod arloesi’n elfen ganolog o’u cynlluniau busnes. Er gwaethaf yr anawsterau presennol, mae gennym sector gweithgynhyrchu deinamig gyda lefelau uchel o drosiant o ran busnesau a swyddi.

Bydd y gystadleuaeth ar gyfer Canolfan ragoriaeth gweithgynhyrchu Cymru yn dod i ben cyn bo hir. Bydd y sefydliad neu’r consortiwm llwyddiannus yn rhan o system gefnogi integredig a fydd yn moderneiddio gweithgynhyrchu ac yn cynyddu faint o fusnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru sy’n manteisio ar dechnoleg a thechnegau blaengar. Ei darged yw helpu dros 2,000 o fusnesau dros y tair blynedd cyntaf. Yn ogystal, cafodd 20 adran academaidd ledled Cymru eu hachredu gyda statws canolfan ragoriaeth cydweithio mewn technoleg a diwydiant y llynedd ac, erbyn hyn, maent yn helpu cwmnïau i gael gafael ar arbenigedd helaeth mewn ystod eang o feysydd uwch-dechnolegol, er mwyn datblygu cynnyrch presennol a chynnyrch newydd.

Gyda chefnogaeth gan y cynlluniau hyn ac eraill, yr wyf yn ffyddiog y bydd cwmnïau gweithgynhyrchu yn ceisio arwain y gad o ran technoleg yn eu sectorau.

### Ymwybyddiaeth o Fuddsoddiad mewn Band Llydan

**Peter Black**: Pa gamau y mae’r Gweinidog yn eu cymryd i godi ymwybyddiaeth busnesau o fuddsoddiad y Cynulliad Cenedlaethol mewn band llydan? (WAQ16001)

**Andrew Davies:** Ysgrifennaf atoch maes o law a rhoddaf gopi o’r llythyr yn y Llyfrgelloedd ym Mae Caerdydd a Pharc Cathays.

### Gwledydd yr Ymwelwyd â hwy ar Fusnes y Llywodraeth

**Nick Bourne:** Pa wledydd y mae’r Gweinidog wedi ymweld â hwy ar fusnes y Llywodraeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a beth oedd cost yr ymweliad? (WAQ16008) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan Brif Weinidog Cymru ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ16010.

### Ymweliadau Tramor Swyddogol y Llywodraeth

**Nick Bourne:** Pa ddigwyddiadau neu gyfarfodydd gwleidyddol y mae’r Gweinidog wedi bod yn bresennol ynddynt yn ystod ymweliadau swyddogol y Llywodraeth dramor dros y flwyddyn ddiwethaf? (WAQ16017) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan Brif Weinidog Cymru ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fu Gweinidogion y Cabinet mewn unrhyw ddigwyddiadau na chyfarfodydd gwleidyddol yn ystod ymweliadau tramor swyddogol y Llywodraeth y llynedd.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a’r Gymraeg

## Cyllid i Rygbi'r Undeb

**Peter Black:** Pa gyllid y mae'r Cynulliad yn ei roi'n uniongyrchol i rygbi'r undeb yng Nghymru, drwy gyrff cyhoeddus a noddir ganddo ac ar ffurf cymorth i Undeb Rygbi Cymru a hefyd ar brosiect Stadiwm y Mileniwm? (WAQ15983)

**Peter Black:** Sut y mae cyllid y Cynulliad ar gyfer rygbi'r undeb yng Nghymru yn helpu rygbi i dyfu yn y cymunedau lleol a darparu cyfleusterau mewn ysgolion a mannau eraill? (WAQ15984)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Mae arian Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer chwaraeon yn cael ei sianelu drwy Gyngor Chwaraeon Cymru, sy'n dyrannu'r arian sydd ar gael ar sail anghenion ariannol a'r blaenoriaethau rhwng gwahanol gyrff llywodraethol chwaraeon.

Mae'r cyngor chwaraeon yn cefnogi datblygu rygbi yng Nghymru drwy sawl cynllun gwahanol fel arian y loteri, Cist Gymunedol a Sportsmatch. Ar y cyd ag Undeb Rygbi Cymru mae hefyd yn cyllido swydd ymgynghorydd gyrfa ac addysg athletwyr, sy'n cysylltu â hyfforddiant rheoli ffordd o fyw.

Darperir cefnogaeth ariannol ar gyfer datblygu rygbi menywod yng Nghymru hefyd.

Darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gymorth i stadiwm y mileniwm er mwyn sicrhau ei fod ar agor yn llawn erbyn Cwpan Rygbi'r Byd yn 1999. Yr oedd hyn yn golygu gwerth £3 miliwn er mwyn cwblhau datblygiad rhodfa'r afon.

Er nad arian y Cynulliad yw hyn, bydd rhaglen addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion y gronfa cyfleoedd newydd hefyd yn darparu arian ar gyfer cyfleusterau i ysgolion a chymunedau lleol. Pan fo'n briodol bydd yr arian hwn yn helpu i ddatblygu rygbi yn yr ysgol, er y bydd hyn yn dibynnu ar yr angen yn lleol.

## Meysydd Chwaraeon Cymunedol

**David Davies:** Beth yw cynlluniau'r Gweinidog ar gyfer sefydlu meysydd chwaraeon cymunedol yng Nghymru? (WAQ15986)

**Jenny Randerson:** Mae arian Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer chwaraeon yn cael ei sianelu drwy Gyngor Chwaraeon Cymru, sydd hefyd yn gweithredu polisïau ar ran y Cynulliad.

Mae'r cyngor chwaraeon yn ystyried ceisiadau am gyllid gan bob cyfleuster chwaraeon yn ôl eu haeddiant, gan ystyried yr angen penodol am y cyfleuster hwnnw yn y rhanbarth.

## Darlledu Digidol

**David Davies:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i esmwytho'r cyfnod trosglwyddo o ddarlledu analog i ddarlledu digidol ar gyfer gwylwyr hŷn? (WAQ15987)

**Jenny Randerson:** Ni ddatganolwyd y mater hwn, ond mae Llywodraeth y Cynulliad yn cadw golwg ar y camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth y DU i werthuso anghenion a phroblemau grwpiau penodol, fel pobl hŷn, wrth drosglwyddo i deledu digidol. Yn benodol, mae panel y gwylwyr, a sefydlwyd i gynghori'r Llywodraeth ar y materion sydd o bryder mwyaf i ddefnyddwyr wrth drosglwyddo i deledu digidol, yn cynnwys cynrychiolwyr o Ofal yr Henoed a Chonfensiwn Cenedlaethol y Pensiynwyr.

## Canolfan Mileniwm Cymru

**Nick Bourne:** Sut y bydd y Gweinidog yn sicrhau bod pobl o bob rhan o Gymru yn elwa o ganolfan gelfyddydau'r mileniwm? (WAQ15988)

**Jenny Randerson:** Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn bwysig i Gymru gyfan. Bydd cwmnïau o Fôn i Fynwy yn dod i berfformio yn y ganolfan, a bydd sioeau sy'n tarddu o'r ganolfan yn teithio dros Gymru. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r teithiau presennol ledled Cymru gan Opera Cenedlaethol Cymru a Theatr Clwyd Cymru.

Mae'r posibiliadau o ran twristiaeth i Gymru yn enfawr. Bydd y ganolfan yn hwb mawr i roi Cymru ar y map yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Lleol a Chymunedau hefyd wedi cyhoeddi £2 filiwn arall i gefnogi'r celfyddydau y tu allan i Gaerdydd pan fydd drysau Canolfan Mileniwm Cymru yn agor. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu gallu ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle gwych y mae'r ganolfan yn ei gynnig i bobl o bob cwr o Gymru. Mae'r ymrwymiad hwn yn ychwanegol at gynnydd o bron i 30 y cant yng nghyllideb Cyngor Celfyddydau Cymru erbyn 2003.

### Wardiau Etholaethol Rhoi Cymunedau'n Gyntaf (Grantiau'r Cyngor Chwaraeon)

**Brian Gibbons:** Pa gyfran o grantiau'r cyngor chwaraeon sy'n cael eu dyrannu i wardiau etholaethol Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (WAQ15989)

**Jenny Randerson:** Mae gan Gyngor Chwaraeon Cymru raglen cynhwysiant cymdeithasol sydd wedi'i hanelu'n benodol at y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yn hanesyddol, mae gwybodaeth am ddosbarthiad grantiau'r cyngor chwaraeon wedi cael ei chasglu ar lefel awdurdodau lleol. Ers nodi ardaloedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, mae 29 o brosiectau un ai wedi cael eu cymeradwyo neu wedi derbyn cymeradwyaeth cam un, neu gefnogaeth mewn egwyddor yn ardaloedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

### Datblygiad Rygbi'r Undeb

**Peter Black:** Sut y mae'r Gweinidog yn cynorthwyo gyda datblygiad rygbi'r undeb yng Nghymru? (WAQ15990)

**Jenny Randerson:** Mae arian Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer chwaraeon yn cael ei sianelu drwy Gyngor Chwaraeon Cymru, sy'n dyrannu'r arian sydd ar gael ar sail anghenion ariannol a'r blaenoriaethau rhwng gwahanol gyrff llywodraethol chwaraeon.

Mae'r cyngor chwaraeon yn cefnogi datblygu rygbi yng Nghymru drwy sawl cynllun gwahanol fel arian y loteri, Cist Gymunedol a Sportsmatch. Ar y cyd ag Undeb Rygbi Cymru mae hefyd yn cyllido swydd ymgynghorydd gyrfa ac addysg athletwyr, sy'n cysylltu â hyfforddiant rheoli ffordd o fyw.

Darperir cefnogaeth ariannol ar gyfer datblygu rygbi menywod yng Nghymru hefyd.

### Ailstrwythuro Cyngor Celfyddydau Cymru

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau nad oes oedi gyda darpariaeth ariannol ar gyfer mentrau newydd oherwydd ailstrwythuro Cyngor Celfyddydau Cymru? (WAQ15991)

**Jenny Randerson:** Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw oedi gyda chyllido o ganlyniad i ailstrwythuro Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r cyngor wedi cymryd nifer o gamau i amddiffyn cleientiaid rhag unrhyw effeithiau negyddol oherwydd y newid. Er enghraifft, cynhaliodd rowndiau terfynol nifer o'i gynlluniau cyllido presennol er mwyn sicrhau y byddai'n gallu gwneud penderfyniadau brys cyn cyflwyno'r cynlluniau newydd ym mis Ebrill, gan gynnwys arian prosiectau yng nghytundebau refeniw orielau mawr ar gyfer y flwyddyn nesaf, fel bod modd iddynt drefnu arddangosfeydd yn hyderus. Mae'r

cyngor yn awr hefyd yn trefnu i wahodd ceisiadau ar gyfer y cynlluniau newydd ddechrau'r flwyddyn ariannol, unwaith eto i osgoi unrhyw anghyfleustra i gleientiaid.

## Gwaith Celf Cyfoes

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd i annog arddangos gwaith celf cyfoes o Gymru? (WAQ15992)

**Jenny Randerson:** Ysgrifennais at Gyngor Celfyddydau Cymru yn ddiweddar gan roi fy nghaniatâd i drosglwyddo'r casgliad celfyddydau Cymreig, sef casgliad celfyddyd cyngor y celfyddydau, i 15 o sefydliadau cyhoeddus ledled Cymru. Mae tua 1,000 o weithiau celf yn cael eu dosbarthu i'r cyrff hynny ar hyn o bryd.

Mae fy strategaeth ddiwylliant a lansiwyd yn ddiweddar yn cynnwys cynlluniau i adolygu pa mor ymarferol fyddai ystod ehangach o fannau arddangos o ansawdd ledled Cymru, gan gynnwys oriel Gymreig o waith celf cyfoes. Bydd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn rhan o'r broses hon a chyn bo hir bydd yn cyhoeddi dogfen ymgynghori ar arddangos ei gasgliadau celf, gan gynnwys gwaith cyfoes. Am y tro cyntaf, bydd hyn yn rhoi disgrifiad clir a chynhwysfawr i'r cyhoedd o bolisïau presennol yr amgueddfa; yn nodi'r sgôp ar gyfer datblygu; yn dadansoddi'r opsiynau; ac yn ystyried yr amserlen ar gyfer eu datblygu.

Yr wyf hefyd wedi gofyn i'r oriel genedlaethol a Chyngor Amgueddfeydd Cymru lunio cynigion ar gyfer rhaglen bartneriaeth a fyddai'n golygu bod modd arddangos eitemau o'r casgliad cenedlaethol mewn orielau lleol, ar sail cynllun peilot i ddechrau mewn lleoliadau yng nghanolbarth a gogledd Cymru. Os bydd hyn yn llwyddiant, yr ydym yn bwriadu ymestyn y rhaglen i amgueddfeydd ac orielau ledled Cymru.

## Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynigion yn ymwneud â dyfodol Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen? (WAQ15993)

**Jenny Randerson:** Dyfarnwyd grant loteri 'Celfyddyd i Bawb' gwerth £64,000 i Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn ddiweddar ar gyfer y 12 mis nesaf er mwyn cyllido nifer o swyddi. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ystyried cais pellach gan Eisteddfod Llangollen am ragor o gyllid refeniw.

Yn ogystal, mae'r cyngor bellach wedi cwblhau ei adolygiad o wyliau yng Nghymru ac mae wedi clustnodi cyllid ar gyfer datblygu gwyliau, a allai gynnwys cais Llangollen.

Cyfarfûm â phrif weithredwr Eisteddfod Llangollen, Cyngor Sir Dinbych a chynrychiolwyr o'r Eisteddfod ym mis Rhagfyr 2001, pan drafodwyd goblygiadau adolygiad y cyngor o wyliau a sut y gallai hyn effeithio ar Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen. Bydd angen ystyried hyn yng nghyd-destun strategaeth datblygu celfyddydau pum mlynedd y cyngor, sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd. Cefais wybod yn y cyfarfod hwn hefyd y bydd Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn troi at Fwrdd Croeso Cymru a'r Cyngor Prydeinig am ragor o gyfleoedd ariannu.

## Gwledydd yr Ymwelwyd â hwy ar Fusnes y Llywodraeth

**Nick Bourne:** Pa wledydd y mae'r Gweinidog wedi ymweld â hwy ar fusnes y Llywodraeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a beth oedd cost yr ymweliad? (WAQ16002) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan Brif Weinidog Cymru ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ16010.

### Ymweliadau Tramor Swyddogol y Llywodraeth

**Nick Bourne:** Pa ddigwyddiadau neu gyfarfodydd gwleidyddol y mae'r Gweinidog wedi bod yn bresennol ynddynt yn ystod ymweliadau tramor swyddogol y Llywodraeth dros y flwyddyn ddiwethaf? (WAQ16011) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan Brif Weinidog Cymru ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fu Gweinidogion y Cabinet mewn unrhyw ddigwyddiadau na chyfarfodydd gwleidyddol yn ystod ymweliadau tramor swyddogol y Llywodraeth y llynedd.

### Prosiect Ieithoedd Celtaidd

**Glyn Davies:** Pa geisiadau am gymorth ariannol sydd wedi dod i law oddi wrth brifysgolion tramor i gefnogi datblygiad prosiect ieithoedd celtaidd ym Mhrifysgol Humboldt ym Merlin? (WAQ16023)

**Jenny Randerson:** Mae fy nghyd-Aelod, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, wedi derbyn dau gais. Fodd bynnag, dan adran 65 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, dim ond sefydliadau addysg uwch Cymreig y gall y Cynulliad eu cyllido a hynny drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Gwledydd yr Ymwelwyd â hwy ar Fusnes y Llywodraeth

**Nick Bourne:** Pa wledydd y mae'r Gweinidog wedi ymweld â hwy ar fusnes y Llywodraeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a beth oedd cost yr ymweliad? (WAQ16007) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan Brif Weinidog Cymru ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ16010.

### Ymweliadau Tramor Swyddogol y Llywodraeth

**Nick Bourne:** Pa ddigwyddiadau neu gyfarfodydd gwleidyddol y mae'r Gweinidog wedi bod yn bresennol ynddynt yn ystod ymweliadau tramor swyddogol y Llywodraeth dros y flwyddyn ddiwethaf? (WAQ16016) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan Brif Weinidog Cymru ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fu Gweinidogion y Cabinet mewn unrhyw ddigwyddiadau na chyfarfodydd gwleidyddol yn ystod ymweliadau tramor swyddogol y Llywodraeth y llynedd.

### Gwaith Dilynol i Flwyddyn Mathemateg 2000

**Gareth Jones:** A yw Techniquest wedi penodi cydlynydd ar gyfer y gwaith dilynol i Flwyddyn Mathemateg 2000, ac os do, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi manylion ynglŷn â'r cydlynydd hwn, gan gynnwys cymwysterau? (WAQ16033) [W]

**Gareth Jones:** A yw'r gwaith dilynol i Flwyddyn Mathemateg 2000 wedi cychwyn, ac os naddo, pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl y bydd yn cychwyn? (WAQ16034) [W]

**Gareth Jones:** Pa sicrwydd a all y Gweinidog ei roi y bydd aelodaeth unrhyw grŵp llywio i oruchwylio'r gwaith dilynol i Flwyddyn Mathemateg 2000 yn adlewyrchu gwahanol ranbarthau a natur ddwyieithog ein cymunedau? (WAQ16035) [W]

**Gareth Jones:** A oes grŵp llywio i oruchwylio'r gwaith dilynol i Flwyddyn Mathemateg 2000 wedi ei sefydlu, ac os do, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi manylion am yr aelodau? (WAQ16036) [W]

**Gareth Jones:** Pa drefniadau sydd wedi eu gwneud i werthuso ansawdd a deilliannau y gwaith dilynol i Flwyddyn Mathemateg 2000? (WAQ16037) [W]

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Tanlinellodd Mathemateg 2000 bod hybu agwedd gadarnhaol at fathemateg ymhlith pobl ifanc yn bwysig i'r Cynulliad. Cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol adroddiad ar ganlyniadau pwysicaf Mathemateg 2000 ym mis Mawrth 2001. Hefyd, nododd yr adroddiad nifer o feysydd y mae angen mwy o waith arnynt.

Cytunwyd y dylid gwahodd Techniquest, a oedd wedi rheoli Mathemateg 2000 ar gyfer y Cynulliad, i barhau â'r gwaith hwn a llunio rhaglen i fynd i'r afael â'r meysydd y mae angen mwy o waith arnynt. Yn benodol, gofynnwyd i Techniquest drefnu achlysur mathemateg cenedlaethol blynyddol, nodi a lledaenu arfer da—drwy wefan, lle bo hynny'n briodol—a hyrwyddo digwyddiadau lleol a chenedlaethol er mwyn hybu mathemateg ymhlith pobl ifanc a rhieni. Wrth wneud y gwaith hwn, bydd dysgu mathemateg yng nghyfnod allweddol 3 yn cael sylw arbennig er mwyn cefnogi'r cynigion yn 'Y Wlad sy'n Dysgu' i wella safonau yn y maes hwn. Yn ogystal â hyn, bydd Techniquest yn rhoi cyngor ar y camau sydd angen eu cymryd i sefydlu cymdeithas ar gyfer athrawon mathemateg yng Nghymru.

Mae hyn yn cael ei roi ar waith gan gydlynydd cenedlaethol a benodwyd gan Techniquest. Treuliwyd mwy o amser na'r disgwyl yn chwilio am ymgeisydd addas, ond mae'r penodiad wedi ei wneud bellach. Bu Bill Dines yn athro ac ymgynghorydd awdurdod addysg lleol ar wyddoniaeth. Yn 1996, fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr rhaglenni cyhoeddus ac addysg yn Techniquest. Yn y swydd hon, bu'n cydweithio'n rheolaidd ag ysgolion ledled Cymru, gan ddatblygu hyfforddiant mewn swydd i athrawon a datblygu a gweithredu rhaglenni addysg arbenigol ar gyfer ysgolion megis Mathamagic, a gyflwynwyd ledled Cymru yn rhan o Mathemateg 2000.

Bydd y gwaith yn cael ei oruchwylio gan grŵp llywio a fydd yn cynnwys arbenigwyr pwnc o Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, Estyn, yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol a chymdeithas ymgynghorwyr yr awdurdodau addysg lleol ar fathemateg yng Nghymru. Bydd pob un o'r cyrff a nodir yn rhoi perspectif Cymru gyfan i'r gwaith sydd ar y gweill. Hefyd, bydd hawl gan y grŵp i gyfethol mwy o aelodau sydd ag arbenigedd penodol, fel y bo'n briodol. Gofynnwyd i'r cyrff a nodir uchod enwebu cynrychiolwyr ar gyfer y cyfarfod cyntaf a drefnwyd ar gyfer 5 Mawrth. Byddaf yn gofyn i swyddogion ddarparu ar eich cyfer fanylion y rhai a enwebwyd, pan fyddant ar gael. Y grŵp llywio, mewn cydweithrediad â'r cydlynydd, fydd yn gyfrifol am lunio'r rhaglen waith.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Gwledydd yr Ymwelwyd â hwy ar Fusnes y Llywodraeth

**Nick Bourne:** Pa wledydd y mae'r Gweinidog wedi ymweld â hwy ar fusnes y Llywodraeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a beth oedd cost yr ymweliad? (WAQ16006) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan Brif Weinidog Cymru ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ16010.

### Ymweliadau Tramor Swyddogol y Llywodraeth

**Nick Bourne:** Pa ddigwyddiadau neu gyfarfodydd gwleidyddol y mae'r Gweinidog wedi bod yn bresennol ynddynt yn ystod ymweliadau tramor swyddogol y Llywodraeth dros y flwyddyn ddiwethaf? (WAQ16015) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan Brif Weinidog Cymru ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fu Gweinidogion y Cabinet mewn unrhyw ddigwyddiadau na chyfarfodydd gwleidyddol yn ystod ymweliadau tramor swyddogol y Llywodraeth y llynedd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Gwledydd yr Ymwelwyd â hwy ar Fusnes y Llywodraeth

**Nick Bourne:** Pa wledydd y mae'r Gweinidog wedi ymweld â hwy ar fusnes y Llywodraeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a beth oedd cost yr ymweliad? (WAQ16005) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan Brif Weinidog Cymru ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ16010.

### Ymweliadau Tramor Swyddogol y Llywodraeth

**Nick Bourne:** Pa ddigwyddiadau neu gyfarfodydd gwleidyddol y mae'r Gweinidog wedi bod yn bresennol ynddynt yn ystod ymweliadau tramor swyddogol y Llywodraeth dros y flwyddyn ddiwethaf? (WAQ16014) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan Brif Weinidog Cymru ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fu Gweinidogion y Cabinet mewn unrhyw ddigwyddiadau na chyfarfodydd gwleidyddol yn ystod ymweliadau tramor swyddogol y Llywodraeth y llynedd.

### Partneriaeth Richard Rogers

**Glyn Davies:** Ar ba ddyddiad y penderfynodd y Gweinidog yn y diwedd i roi'r gorau i weithio gyda Phartneriaeth Richard Rogers gan ei bod wedi tanamcangyfrif cost adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ16024)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Fe'ch cyfeiriaf at fy natganiad gerbron y Cynulliad ar 17 Gorffennaf 2001.

### Partneriaeth Richard Rogers

**Glyn Davies:** Ar ba ddyddiad oedd y Gweinidog yn gwybod bod Partneriaeth Rogers Partnership wedi tanamcangyfrif cost adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ16025)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at y wybodaeth yn fy natganiad gerbron y Cynulliad ar 17 Gorffennaf 2001.

### Partneriaeth Richard Rogers (Hawlio Iawndal)

**Glyn Davies:** Beth oedd cost y cyngor proffesiynol parthed penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i hawlio £6,846,707 o iawndal oddi wrth Bartneriaeth Richard Rogers ynghylch adeilad newydd y Cynulliad ac a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ffigur hwnnw? (WAQ16026)

**Edwina Hart:** Amcangyfrifir mai £150,000 a TAW yw'r gost, ac mae hynny'n cynnwys costau'r tystion arbenigol, er nad yw hyn i gyd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r dyfarniad.

### Partneriaeth Richard Rogers (Cyhoeddi Bapurau a Chyngor Ysgrifenedig)

**Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r holl bapurau a chyngor ysgrifenedig a fu'n sail i benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i hawlio £6,846,707 o iawndal oddi wrth Bartneriaeth Richard Rogers ynghylch adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ16027)

**Edwina Hart:** Na wnaf. Fe'm cynghorir y gallai hynny niweidio buddiannau'r Cynulliad mewn unrhyw achos cyfreithiol pellach.

### Partneriaeth Richard Rogers (Cysylltiad gan y Dyfarnydd)

**Glyn Davies:** A yw'r dyfarnydd wedi cysylltu â chi i'ch hysbysu nad priodol oedd dweud bod Partneriaeth Richard Rogers heb gael 'pethau'n iawn' ynghylch adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ16028)

**Edwina Hart:** Nac ydy.

### Partneriaeth Richard Rogers (Cyngor Cyfreithiol)

**Glyn Davies:** O ble ddaeth y cyngor cyfreithiol a fu'n sail i benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i hawlio £6,846,707 o iawndal oddi wrth Bartneriaeth Richard Rogers ynghylch adeilad newydd y Cynulliad ac a wnaiff y Gweinidog ei gyhoeddi? (WAQ16029)

**Edwina Hart:** Derbyniwyd cyngor cyfreithiol gan Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, Eversheds, twrnai penodedig y Cynulliad a chwnsel arweiniol arbenigol. Ni fyddaf yn cyhoeddi'r cyngor cyfreithiol gan y byddai hyn yn mynd yn groes i fuddiannau'r Cynulliad.

### Partneriaeth Richard Rogers (Costau'n ymwneud â'r Achos)

**Ron Davies:** Pa gostau a ysgwyddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn yr achos rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Phartneriaeth Richard Rogers mewn perthynas â chynllun yr adeilad newydd o dan y broses ddyfarnu ddiweddar? (WAQ16041)

**Edwina Hart:** Amcangyfrifir mai £150,000 a TAW yw'r gost, ac mae hynny'n cynnwys costau'r tystion arbenigol, er nad yw hyn i gyd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r dyfarniad.

### Costau mewn Perthynas â Siambr Newydd y Cynulliad

**Ron Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yr holl gostau hyd yma mewn perthynas â phrosiect Siambr newydd y Cynulliad? (WAQ16042)

**Edwina Hart:** Dyma gyfanswm y costau sy'n gysylltiedig ag Adeilad y Cynulliad hyd yn hyn:

| | **£miliwn** |
|---|---|
| Costau adeiladu | 2.251 |
| Ffioedd i Bartneriaeth Richard Rogers | 3.152 |
| Ffioedd proffesiynol eraill | 0.538 |
| **Cyfanswm** | **5.941** |

### Cyllido Llywodraeth Leol

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfraniad Llywodraeth Cymru i gyllido llywodraeth leol? (WAQ16158)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu 80 y cant o gyllid llywodraeth leol, drwy grantiau cefnogaeth refeniw, grantiau arbennig a phenodol a chyfraddau annomestig cenedlaethol sydd wedi'u hailddosbarthu. Caiff gweddill cyllid awdurdodau lleol ei godi wrth iddynt gasglu treth cyngor, ynghyd ag unrhyw ffioedd a chostau y maent yn eu codi am eu gwasanaethau. Bydd cefnogaeth gwerth £2,912,000 ar gael gan y Cynulliad ar gyfer 2002-03, heb gynnwys cefnogaeth ychwanegol ar gyfer beichiau newydd a grantiau penodol, o'i gymharu â £2,762,000 ar gyfer 2001-02 heb gynnwys grantiau penodol.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

**Jocelyn Davies:** Beth yw statws y penderfyniadau neu'r sylwadau a wnaed gan gynghorwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful rhwng 4 Tachwedd 2001 a 20 Chwefror 2002? (WAQ16159)

**Edwina Hart:** Mae hwn yn fater i'r awdurdod lleol ei hun ar sail ei gyngor cyfreithiol ei hun. Fodd bynnag, o'r hyn yr wyf yn ei ddeall, mae'r penderfyniadau a wnaeth y cynghorwyr yn ystod y cyfnod dan sylw dal yn ddilys dan adran 82 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### Proses Tendro ar gyfer Contract Adeilad Newydd y Cynulliad

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion ynghylch y broses dendro ar gyfer contract adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ16167)

**Edwina Hart:** Mae'r hysbyseb a ymddangosodd yn yr *Official Journal of European Communities* ar 25 Medi 2001 yn rhoi manylion y broses dendro. Mae copi ohono ar gael yn y Llyfrgell.

### Contract ar gyfer Adeilad Newydd y Cynulliad

**Nick Bourne:** Pa bryd y disgwylir cael penderfyniad ar y contract ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ16168)

**Edwina Hart:** Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd y penderfyniad ar ddyfarnu'r contract yn cael ei wneud tua diwedd 2002.

### Adroddiad y Dyfarnwr ar Adeilad Newydd y Cynulliad

**Nick Bourne:** A fydd y Gweinidog yn sicrhau bod contractwyr newydd ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad yn cael gweld copi o adroddiad y dyfarnwr? (WAQ16169)

**Edwina Hart:** Na fyddaf.

### Costau o Ganlyniad i'r Dyfarniand mewn Perthynas â'r Arglwydd Rogers

**Nick Bourne:** Pa gostau a achoswyd, gan gynnwys costau cyfreithiol a chostau contractwyr, o ganlyniad i'r dyfarniad mewn perthynas â'r Arglwydd Rogers? (WAQ16170)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ16026.

### Gohebiaeth gyda Phenseiri Proffesiynol

**Nick Bourne:** Pa ohebiaeth y mae'r Gweinidog wedi'i chael gyda phenseiri proffesiynol mewn perthynas â chontract Richard Rogers, ac a fydd yn cyhoeddi'r ohebiaeth honno? (WAQ16171)

**Edwina Hart:** Ers i ni ddod â'n cytundeb gyda Phartneriaeth Richard Rogers i ben, yr wyf wedi derbyn rhywfaint o ohebiaeth gan benseiri ynghylch y prosiect ac yr oedd rhai wedi mynegi eu diddordeb i gwblhau'r cynllun. Nid wyf yn credu y byddai'n briodol cyhoeddi'r ohebiaeth.

### Apelio yn erbyn Dyfarniad Achos Richard Rogers

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu apelio yn erbyn dyfarniad achos Richard Rogers, ac a oes unrhyw ddyfarniadau eraill o dan ystyriaeth? (WAQ16172)

**Edwina Hart:** Nid oes darpariaeth yn y broses ddyfarnu ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad y dyfarnwr. Nid yw'r Cynulliad wedi'i hysbysu am unrhyw ddyfarniadau eraill.

### Cost Terfynu'r Contract gyda Richard Rogers

**Nick Bourne:** Beth oedd cost terfynu'r contract gyda Richard Rogers? (WAQ16174)

**Edwina Hart:** Yn unol â'r hyn a nodwyd yn y contract, cost dod â'n cytundeb gyda Phartneriaeth Richard Rogers i ben oedd ffioedd tri mis. Cyfanswm y gost oedd £255,000, gan gynnwys TAW.

### Arian a Wariwyd ar Brosiect Adeilad Newydd y Cynulliad

**Nick Bourne:** Faint o arian a wariwyd hyd yn hyn ar brosiect adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ16175)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ16042.

### Lleoli'r Cynulliad Cenedlaethol yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ailystyried yr opsiwn o leoli'r Cynulliad Cenedlaethol yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd? (WAQ16176)

**Edwina Hart:** Na wnaf. Fe'ch cyfeiriaf at baragraff 14 y ddogfen wybodaeth am brosiect yr adeilad newydd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2000.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Gwledydd yr Ymwelwyd â hwy ar Fusnes y Llywodraeth

**Nick Bourne:** Pa wledydd y mae'r Gweinidog wedi ymweld â hwy ar fusnes y Llywodraeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a beth oedd cost yr ymweliad? (WAQ16004) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan Brif Weinidog Cymru ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ16010.

### Ymweliadau Tramor Swyddogol y Llywodraeth

**Nick Bourne:** Pa ddigwyddiadau neu gyfarfodydd gwleidyddol y mae'r Gweinidog wedi bod yn bresennol ynddynt yn ystod ymweliadau tramor swyddogol y Llywodraeth dros y flwyddyn ddiwethaf? (WAQ16013) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan Brif Weinidog Cymru ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fu Gweinidogion y Cabinet mewn unrhyw ddigwyddiadau na chyfarfodydd gwleidyddol yn ystod ymweliadau tramor swyddogol y Llywodraeth y llynedd.

### Safonau ar gyfer Canser

**Nick Bourne:** Yn dilyn cwestiwn WAQ15773, pa dri phrif fath o ganser y cyfeirir atynt yn yr ateb? (WAQ16020)

**Nick Bourne:** Yn dilyn cwestiwn WAQ15773, beth yw'r safonau isaf ar gyfer yr holl fathau eraill o ganser y cyfeirir atynt yn yr ateb? (WAQ16021)

**Nick Bourne:** Yn dilyn cwestiwn WAQ15773, pa arwydd clir sydd wedi'i roi gan awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG ynghylch pryd y byddent yn gallu bodloni'r safonau y cyfeirir atynt yn yr ateb? (WAQ16022)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae safonau sylfaenol gofal canser Cymru-gyfan yn safonau ar sail tystiolaeth ac fe'u cynhyrchir gan y grŵp cydgysylltu

gwasanaethau canser. Mae 10 set o safonau, un ar gyfer y naw canser cyffredin—bron, colorectal, ysgyfaint, wrolegol, hematolegol, gastro-esoffegaidd, gynecolegol, pen a gwddw a chroen, ac un set ar gyfer gofal lliniarol arbenigol.

Mae’r safonau yn diffinio agweddau hanfodol y gofal iechyd a ddylai fod yn cael ei ddarparu i gleifion canser yng Nghymru, gan gynnwys cyfeiriadau at arbenigwyr canser, diagnosis a thriniaeth. Gellir darllen y set gyflawn o safonau dros y rhyngrwyd yn http://www.wales.gov.uk/subihealth/topics-e.htm#cancer.

Mae’r safonau ar gyfer y naw canser cyffredin i gyd yn cynnwys y safon bod yn rhaid i gleifion sy’n achosion brys, yn ôl arbenigwr canser, gael eu gweld cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl i feddyg teulu gyfeirio’r claf i’r ysbyty. Mae’r targed canser ar gyfer 2001-02 yn mynnu bod ymddiriedolaethau yn bodloni’r safon hwn yn rheolaidd gydag o leiaf pedwar o’r naw math, ac mae’n rhaid i ganser y fron fod yn un o’r rhain. Bydd y tri math arall o ganser a ddewisir yn amrywio rhwng ymddiriedolaethau.

Mae’r arwyddion o’r ymddiriedolaethau ynghylch pryd y maent yn disgwyl bodloni pob un o’r safonau yn y 10 set yn amrywio hefyd. Pwrpas gofyn am y wybodaeth hon oedd er mwyn ei defnyddio fel darlun sylfaenol lefel uchel, ar y cyd â’r ymarfer monitro blynyddol sy’n cael ei wneud gan y grŵp cydgysylltu gwasanaethau canser, er mwyn goleuo datblygiad cynllun datblygu gwasanaethau canser cenedlaethol. Bydd y cynllun yn gosod fframwaith clir a blaenraglen waith i gefnogi’r tri rhwydwaith canser newydd i roi’r safonau ar waith a gwella canlyniadau i gleifion sydd â chanser.

## Rhaglen Addysg ar Feirws Syncitiol Anadlol

**Ann Jones:** Pa gynlluniau sy’n bod i roi rhaglen addysg ar waith i helpu rhieni babanod sy’n cael eu geni cyn pryd i rwystro effeithiau gwaethaf RSV? (WAQ16030)

**Jane Hutt:** Nid oes gennym gynlluniau penodol i weithredu rhaglen addysg er mwyn helpu rhieni babanod sy’n cael eu geni cyn pryd i rwystro effeithiau gwaethaf RSV. Mae cyngor cyffredinol am ofal babanod sy’n cael eu geni cyn pryd yn rhan o drefniadau cyffredinol rhyddhau o’r ysbyty pob uned newydd-eni.

## Trechu Feirws Syncitiol Anadlol

**Ann Jones:** Pa sylwadau y mae’r Gweinidog wedi’u cael gan broffesiynolion iechyd ynghylch trechu RSV yng Nghymru? (WAQ16031)

**Jane Hutt:** Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan weithwyr proffesiynol ym maes iechyd mewn perthynas â mynd i’r afael ag RSV yng Nghymru.

## Achosion o Feirws Syncitiol Anadlol

**Ann Jones:** Sawl achos o’r feirws syncitiol anadlol sydd wedi’u cofnodi ymhlith babanod a aned cyn pryd, hynny ym mhob awdurdod iechyd yng Nghymru? (WAQ16032)

**Jane Hutt:** Mae’r Gwasanaeth Labordai Iechyd Cyhoeddus yn casglu data am yr achosion o firws syncitiol anadlol sydd wedi’u cadarnhau mewn labordy. Mae’r tabl isod yn dangos nifer yr achosion o RVS a gadarnhawyd yn 2001 yn ôl babanod dan fis oed, babanod dan flwydd oed ac ar gyfer pob oed a hynny yn ôl eu hardal. Nid yw’n bosibl i’r Gwasanaeth Labordai Iechyd Cyhoeddus nodi pa achosion oedd yn fabanod a aned cyn pryd.

| **Ardal Awdurdod iechyd** | **Oed** | | |
|---|---|---|---|
| | **<1 mis** | **<1 mlwydd (a)** | **Pob oed** |
| Bro Taf | 9 | 54 | 77 |
| Dyfed Powys | 3 | 50 | 63 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwent | 5 | 42 | 46 |
| Iechyd Morgannwg | 6 | 90 | 101 |
| Y Gogledd | 4 | 57 | 68 |
| Anhysbys | 1 | 2 | 2 |
| Cynnwys | 28 | 295 | 357 |

(a) **Gan gynnwys data am <1 mis.**

### Plant a Chanddynt Anghenion Arbennig

**Rod Richards:** Yn unol â'r ddeddfwriaeth a gymeradwywyd ar 29/11/01, sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn cyfeirio rhieni plant a chanddynt anghenion arbennig at asiantaethau annibynnol, sut mae'r asiantaethau annibynnol hyn yn cael eu hariannu? (WAQ16056)

**Rod Richards:** Yn unol â'r ddeddfwriaeth a gymeradwywyd ar 29/11/01, sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn cyfeirio rhieni plant a chanddynt anghenion arbennig at asiantaethau annibynnol, a yw'r Gweinidog wedi ystyried rhoi arian i SNAP (cynllun ymgynghorol anghenion arbennig)? (WAQ16057)
***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.***

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae cod ymarfer anghenion addysgol arbennig Cymru, a gymeradwywyd yn unfrydol yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad ar 27 Tachwedd 2001 yn tanlinellu bod yn rhaid i awdurdodau addysg lleol, dan adran 332A Deddf Addysg 1996, drefnu cyngor a gwybodaeth briodol i rieni plant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Tra bo'n rhaid i awdurdodau addysg lleol wneud trefniadau o'r fath drwy wasanaeth partneriaeth rhieni, nid oes yn rhaid iddynt ddarparu'r gwasanaeth eu hunain na chyfeirio rhieni at asiantaethau annibynnol. Gall awdurdodau lleol ddewis darparu gwasanaeth partneriaeth rhieni ar sail yr AALl yn gyfan gwbl, neu brynu'r gwasanaeth gan ddarparwr arall, neu gallant ddewis cyfuniad o'r naill a'r llall.

Yn y gorffennol mae SNAP Cymru wedi derbyn arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu ei wasanaethau Cychwyn Cadarn, person cyswllt a datrys anghydfodau. Mae SNAP Cymru yn darparu gwasanaeth partneriaeth rhieni i sawl AALl yng Nghymru, ac mae Canolfannau Cynghori yn gwneud yr un peth yng ngogledd Cymru. Serch hynny, awdurdodau addysg lleol sy'n penderfynu ar y trefniadau penodol i gyflwyno gwasanaeth partneriaeth rhieni.

### Camddefnyddio Sylweddau

**Geraint Davies:** Beth yw cyfanswm yr arian a wariwyd ar fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ym mhob rhan o Gymru yn ystod pob un o'r tair blynedd ariannol ddiwethaf? (WAQ16150)

**Jane Hutt:** Nid oes gwybodaeth gynhwysfawr ar gael am gyfanswm y gwariant ar fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru.

Mae rhaglenni'r Cynulliad yn darparu adnoddau, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar gyfer atal a thrin mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion cyllid uniongyrchol o'r Swyddfa Gymreig/Cynulliad Cenedlaethol rhwng 1998-99 a 2000-01, yn ogystal â manylion cyfanswm gwariant yr awdurdod iechyd i frwydro yn erbyn camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

| Blwyddyn Ariannol | Y Swyddfa Gymreig/Cynulliad Cenedlaethol (£mil) | Gwariant awdurdod iechyd yng Nghymru (£mil) |
|---|---|---|
| 1998-1999 | 671 | 7,842 |
| 1999-2000 | 2,254 | 10,473 |
| 2000-2001 | 2,630 | 11,634 |

## Mynd i'r Afael â Chamddefnyddio Sylweddau

**Geraint Davies:** Faint o arian a wariwyd yn mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru yn y categorïau canlynol yn ystod pob un o'r tair blynedd ariannol ddiwethaf: addysg a mesurau ataliol eraill; adferiad i'r rheini sy'n gaeth i gyffuriau; ac ymarferion cyfyngu ar niwed? (WAQ16151)

**Jane Hutt:** Ni ellir dadansoddi'r eitemau hyn yn unigol. Fodd bynnag, mae strategaeth camddefnyddio sylweddau Cymru, 'Delio â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru: Y Dull Partneriaeth', yn rhoi cryn bwys ar addysg, atal, adferiad i'r rheini sy'n gaeth i gyffuriau a chyfyngu ar niwed. Mae enghreifftiau o weithgareddau yn y meysydd hyn yn cynnwys dwy gynhadledd ar leihau niwed a drefnwyd gan gangen atal camddefnyddio sylweddau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2002; cylchlythyr addysgol newydd o'r enw 'Camddefnyddio Sylweddau: Plant a Phobl Ifanc' a gyhoeddir cyn bo hir; a chanolfannau adfer a gyllidir dan gynllun grant adran 64 y Cynulliad Cenedlaethol.

## Rhaglen Dad-wenwyno

**Geraint Davies:** Pa mor hir y mae'n rhaid i bobl yng Nghymru aros i allu manteisio ar raglen ddad-wenwyno, fesul etholaeth a fesul awdurdod unedol? (WAQ16152)

**Jane Hutt:** Ni chedwir y wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani yn ganolog. Fodd bynnag, yn ystod 2002, bydd Cyfarwyddiaeth Cymunedau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu gwaith comisiynu a darparu gwasanaethau trin ac adfer yng Nghymru er mwyn rhoi sylw i bryderon ynghylch faint o'r gwasanaethau hyn sydd ar gael. Bydd canlyniadau'r adolygiad hwn ar gael yng ngwanwyn 2003.

## Gwariant ar Wasanaethau Adferiad i'r Rheini sy'n Gaeth i Gyffuriau

**Geraint Davies:** Faint sy'n cael ei wario ar wasanaethau adferiad i'r rheini sy'n gaeth i gyffuriau ledled Cymru, fesul etholaeth a fesul awdurdod unedol? (WAQ16153)

**Jane Hutt:** Ni chedwir y wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani yn ganolog. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn daprau dros £3 miliwn o arian uniongyrchol yn 2001-02 ar gynlluniau cyffuriau ac alcohol ac mae £2 filiwn o hwnnw wedi'i ddyrannu i'r gronfa triniaethau cyffuriau ac alcohol. Disgwylir i awdurdodau iechyd wario o leiaf 0.4 y cant o'u dyraniadau refeniw dewisol ar atal a thriniaethau camddefnyddio sylweddau. Nid yw'r wybodaeth am wariant awdurdodau lleol unigol ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd Cyfarwyddiaeth Cymunedau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu gwaith comisiynu a darparu gwasanaethau trin ac adfer yng Nghymru a disgwylir y bydd gwybodaeth fanylach am wariant ar gael yng ngwanwyn 2003.

## Pobl sydd wedi eu Cofrestru fel Pobl sy'n Gaeth i Gyffuriau

**Geraint Davies:** Faint o bobl sydd wedi'u cofrestru fel pobl sy'n gaeth i gyffuriau yng Nghymru, fesul etholaeth a fesul awdurdod unedol? (WAQ16154)

**Jane Hutt:** Ni chedwir gwybodaeth yn ganolog ynghylch pobl sy'n feddygol ddibynnol. Y system monitro triniaethau cyffuriau genedlaethol—cronfa ddata camddefnyddio cyffuriau Cymru gynt—yw'r brif ffynhonnell wybodaeth erbyn hyn am natur camddefnyddio cyffuriau. Mae rhywfaint o wybodaeth gryno o gronfa ddata camddefnyddio cyffuriau Cymru ym mwletin ystadegol SB 7/2001 'Camddefnyddio Cyffuriau yng Nghymru', sydd ar gael yn y Llyfrgell, er mai dim ond cofnodi pwy sy'n cyflwyno eu hunain gerbron asiantaeth gyffuriau am y tro cyntaf, neu ar ôl bwlch o chwe mis o leiaf y mae'r gronfa.

## Gradd ac Ystod Cyflogau Uwch-swyddogion o dan y Diwygiadau Arfaethedig i'r Gwasanaeth Iechyd

**Alun Cairns:** Beth fydd gradd ac ystod cyflogau y tri uwch-swyddog ar y lefel ranbarthol o dan y diwygiadau arfaethedig i'r gwasanaeth iechyd? (WAQ16156)

**Jane Hutt:** Ar ôl i ni ddiffinio prif gyfrifoldebau'r uwch-swyddogion rhanbarthol, ysgrifennir y disgrifiadau swydd ac wedyn cânt eu gwerthuso drwy ddefnyddio'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd ar gyfer pob swydd gwasanaeth sifil arall.

## Cyfrifoldebau Uwch-swyddogion o dan y Diwygiadau Arfaethedig i'r Gwasanaeth Iechyd

**Alun Cairns:** Beth fydd prif gyfrifoldebau'r tri uwch-swyddog a fydd â chyfrifoldeb ar y lefel ranbarthol o dan y diwygiadau arfaethedig i'r gwasanaeth iechyd? (WAQ16157)

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd rydym yn ystyried pwy fydd yn gyfrifol am y swyddogaethau. Bydd hyn yn pennu prif gyfrifoldebau'r uwch-swyddogion rhanbarthol. Ar ôl gwneud hyn, ysgrifennir y disgrifiadau swydd a bydd y swyddi'n dilyn gweithdrefn arferol y gwasanaeth sifil ar gyfer gwerthuso a graddio swydd.

## Effaith y Ddeddf Safonau Gofal ar yr Adnoddau Hyperparig

**Alun Cairns:** Pa asesiadau sydd wedi eu gwneud ar effaith y Ddeddf Safonau Gofal 2000 ar yr adnoddau hyperparig a ddefnyddir wrth drin sglerosis ymledol? (WAQ16179)

**Jane Hutt:** Nid oedd yr ymgynghoriad eang yng Nghymru a Lloegr wedi cynhyrchu unrhyw sylwadau ar yr effaith ar wasanaethau. Ymhlith y rhain yr oedd ymatebion gan Gymdeithas Hyperparig Prydain ar ran ei aelodau sy'n rheoli cyfleusterau hyperparig; rheolwyr a chyfarwyddwyr siambrau hyperparig unigol; Ffederasiwn Canolfannau Therapi Sglerosis Ymledol; ac awdurdodau iechyd. Croesawyd y cynnig i reoli triniaethau hyperparig a chefnogwyd y safonau.

Fodd bynnag, mae'r asesiad effaith rheoliadol yn cydnabod effaith gyffredinol y rheoliadau mewn perthynas â ffioedd—bydd lefel y ffioedd a godir ar ddarparwyr gofal iechyd annibynnol yn effeithio ar eu cost gyffredinol (cynhaliwyd ymgynghoriad arall yn gynharach)—a chyflwyno polisïau a gweithdrefnau. Y casgliad oedd y bydd y gwell amddiffyniad a'r manteision i'r cleifion yn drech na'r costau isel sydd ynghlwm wrth eu gweithredu.

## Rheoleiddio Adnoddau Hyperparig

**Alun Cairns:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i reoleiddio'r adnoddau hyperparig sy'n cael eu trefnu gan grwpiau cymunedol ar gyfer y rhai sy'n dioddef o sglerosis ymledol? (WAQ16180)

**Jane Hutt:** Bydd y rheoliadau yn berthnasol i bob therapi ocsigen hyperparig ar gyfer dibenion meddygol a therapiwtig. Mae hyn yn cynnwys siambrau therapi ocsigen hyperparig sydd wedi'u gosod gan ganolfannau trin elusennol ledled y DU, gan gynnwys 56 dan berchnogaeth y Gymdeithas Sglerosis Ymledol. Mae rheoliad 3, Rheoliadau drafft Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 yn cyfeirio atynt.

Mae therapi ocsigen hyperparig yn peri risg os na chaiff y siambrau eu defnyddio'n gywir. Bydd gormod o ocsigen yn cynyddu'r risg o dân ac mae angen rheolau llym i leihau faint o ddeunyddiau fflamadwy sydd yno. Mae achosion o dân a ffrwydriadau unigol wedi bod dros y byd, mewn siambrau sengl a siambrau sawl lle sy'n cael eu goruchwylio'n feddygol. Ar ben hynny gall anadlu ocsigen dan bwysau gael effaith andwyol. Y farn gyffredin ymysg arbenigwyr yw y croesewir rheoliadau ar gyfer y driniaeth.

Yr unig eithriadau i'r rheoliadau arfaethedig yw'r rheini a weithredir gan y lluoedd arfog ar gyfer trin eu staff eu hunain, a phan fydd prif ddiben y siambr yn unol â rheoliad 6(3)(b) Rheoliadau Plymio yn y Gwaith 1997, neu reoliadau 8 neu 12 Rheoliadau Gweithio Mewn Aer Cywasgedig 1996. Ni fydd y siambrau hyn ar gael i'r cyhoedd.

### Sgrinio ar gyfer Clyw mewn Babanod Newydd eu Geni

**David Davies:** Pa bryd y mae’r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno sgrinio ar gyfer clyw mewn babanod newydd eu geni? (WAQ16181)

**Jane Hutt:** Ar 9 Ionawr, cyhoeddais y bydd arian ar gael i awdurdodau iechyd yn benodol ar gyfer cyflwyno sgrinio cyffredin ar gyfer clyw mewn babanod newydd eu geni yn 2002-03.

Cyfarfu’r grŵp arbenigol a sefydlais i fynd â hyn rhagddo yng Nghymru ar 28 Ionawr. Un o’i argymhellion cyntaf oedd y dylid cynnal sgrinio cyffredin ar gyfer clyw mewn babanod newydd eu geni fel rhaglen sgrinio genedlaethol er mwyn sicrhau gwasanaethau o ansawdd da cyson ledled Cymru. Yr wyf felly wedi gwahodd Ymddiriedolaeth GIG Felindre i archwilio sgôp prosiect i fwrw ymlaen â sgrinio cyffredin ar gyfer clyw mewn babanod newydd eu geni yn ystod 2003-03. Mae gan Felindre’r arbenigedd, yr adnoddau a’r enw da am raglenni sgrinio cenedlaethol.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Agor Marchnadoedd Da Byw

**Nick Bourne:** Pryd y caniateir i’r marchnadoedd da byw sydd ar ôl yng Nghymru agor? (WAQ15994)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones):** Agorodd arwerthiannau marchnadoedd gwartheg a marchnadoedd lladd-dai ar gyfer defaid a moch ar 11 Chwefror, ar yr amod bod ganddynt drwydded gweithredwr marchnad. Mae nifer o arwerthiannau llwyddiannus eisoes wedi cael eu cynnal. Ar hyn o bryd, ni allaf gyhoeddi pryd y caniateir trefniadau marchnad ehangach ar gyfer defaid, gan y bydd hyn yn dibynnu ar asesiadau risg afiechydon. Yr ydym yn dal i dderbyn ceisiadau gan farchnadoedd a meysydd gwerthu ac yr ydym yn dal i’w hystyried yn ôl pa mor ymarferol fyddai defnyddio mesurau bioddiogelwch. Bydd amodau cymeradwyo yn dibynnu’n helaeth ar pa un ai yw’r safle ar leoliad caled neu ar wair, pa mor effeithiol yw’r gwaith glanhau a diogelwch y safle rhwng arwerthiannau.

### Iawndal ar gyfer Busnesau Saethu

**David Davies:** Faint o iawndal sydd ar gael ar gyfer busnesau saethu yr effeithiwyd arnynt oherwydd clwy’r traed a’r genau? (WAQ15995)

**Carwyn Jones:** Dan gynllun adfer gwledig y Cynulliad, rhoddwyd £9 miliwn i awdurdodau lleol er mwyn iddynt helpu busnesau yr effeithiwyd arnynt gan glwy’r traed a’r genau. Yr awdurdodau lleol oedd i ddyrannu’r cymorth ariannol i’r busnesau mwyaf eu hangen.

### Materion Iechyd Anifeiliaid

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi eu cael â chyd-weithwyr yn Llundain ynghylch y posibilrwydd o ddatganoli pwerau dros faterion iechyd anifeiliaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ15996)

**Carwyn Jones:** Yr wyf wedi trafod y mater hwn gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae Gweinidogion Llywodraeth y DU yn ystyried trosglwyddo cyfrifoldebau am iechyd anifeiliaid ymhellach, a gwneir penderfyniad maes o law.

### Incwm Net Ffermydd Llaeth a Da Byw

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch yr amcangyfrif mai incwm net yr holl ffermydd llaeth a da byw yng Nghymru ar gyfer 2001-02 yw £5,300? (WAQ15997)

**Carwyn Jones:** Mae'r amcangyfrifon a gyhoeddwyd ddechrau'r mis hwn yn dangos y rhagwelir y bydd incwm net holl ffermydd llaeth a da byw Cymru yn codi ychydig, tua £1,000, i £5,300 yn 2001-02. Yr wyf yn croesawu'r cynnydd bach hwn, yn enwedig gan fod 2001 yn flwyddyn fasnachu mor anodd i'r diwydiant. Yr wyf yn awyddus i helpu ffermwyr i gynyddu eu hincwm a datblygu eu busnesau ymhellach. Mae fy strategaeth ar sut gall Llywodraeth y Cynulliad ac eraill eu cynorthwyo i wneud hyn yn yr adroddiad 'Ffermio ar gyfer y Dyfodol', a gyhoeddwyd fis Tachwedd diwethaf.

**Biwrocratiaeth a Rheoleiddio mewn Diwydiannau Amaethyddol**

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau a gymerir i leihau'r cynnydd o ran biwrocratiaeth a rheoleiddio yn ein diwydiannau amaethyddol? (WAQ15998)

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn ymwybodol o'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â'r diwydiant a byddwn yn dymuno'i leihau lle bo modd, gan gyd-fynd ag ystyriaethau eraill. Byddwn yn eich atgoffa bod gan Lywodraeth y Cynulliad ddyletswydd i ddiogelu'r defnyddwyr, y trethdalwyr, yr amgylchedd a busnesau gwledig. Ein dull gweithredu yw rheoleiddio pan fydd rhaid gwneud hynny a manteisio i'r eithaf ar fesurau marchnadoedd a gwirfoddol i'n cynorthwyo i gyflawni'r amcanion hyn.

Er mwyn ateb pryderon blaenorol o du'r diwydiant amaethyddol ynghylch gormod o fiwrocratiaeth, sefydlwyd y gweithgor rheoli gweinyddu ac archwiliadau integredig gan Lywodraeth y DU yn 1999. Mae wedi gwneud nifer o argymhellion, ac mae nifer ohonynt wedi cael eu gweithredu, gan gynnwys yng Nghymru. Er enghraifft, mae'r ffurflen IACS wedi ei cwtogi o 27 cwestiwn i 11. Rydym hefyd yn datblygu ffurflenni personol gyda'r wybodaeth sydd eisoes gan Adran Amaethyddiaeth y Llywodraeth wedi'i cynnwys arnynt yn barod. Dim ond croes sydd angen ei roi wrth nifer o'r cwestiynau bellach. Hefyd, pan fo hynny'n bosibl, mae ffurflenni'n cael eu cyfuno. Dim ond y gyntaf mewn rhaglen o ffurflenni sydd wedi'u hailgynllunio at ddibenion ffermwyr yng Nghymru yw hon.

**Ailagor Ocsiynau Gwartheg**

**Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynghylch ailagor ocsiynau gwartheg yng Nghymru? (WAQ15999)

**Carwyn Jones:** Mae swyddogion yn fy adran wedi bod yn gweithio'n agos gyda DEFRA i lunio'r drefn symud anifeiliaid dros dro, a newidiadau cysylltiedig i ddeddfwriaeth farchnad a gyflwynwyd ar 11 Chwefror. Mae arwerthiannau gwartheg wedi ailagor dan y trefniadau hyn yn amodol ar amodau bioddiogelwch fel a nodir yn nhrwyddedau gweithredwyr y marchnadoedd.

**Gwledydd yr Ymwelwyd â hwy ar Fusnes y Llywodraeth**

**Nick Bourne:** Pa wledydd y mae'r Gweinidog wedi ymweld â hwy ar fusnes y Llywodraeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a beth oedd cost yr ymweliad? (WAQ16003) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan Brif Weinidog Cymru ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ16010.

**Ymweliadau Swyddogol y Llywodraeth Dramor**

**Nick Bourne:** Pa ddigwyddiadau neu gyfarfodydd gwleidyddol y mae'r Gweinidog wedi bod yn bresennol ynddynt yn ystod ymweliadau swyddogol y Llywodraeth dramor dros y flwyddyn ddiwethaf? (WAQ16012) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan Brif Weinidog Cymru ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fu Gweinidogion y Cabinet mewn unrhyw ddigwyddiadau na chyfarfodydd gwleidyddol yn ystod ymweliadau swyddogol y Llywodraeth dramor y llynedd.

## Gwelyau Cregyn Gleision ym Mae Abertawe

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch unrhyw ran y mae ef neu ei swyddogion wedi'u cymryd mewn cynlluniau i ddatblygu gwelyau cregyn gleision ym Mae Abertawe? (WAQ16146)

**Alun Cairns:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau i ddatblygu gwelyau cregyn gleision ym Mae Abertawe? (WAQ16147)

**Alun Cairns:** Pa gyfarfodydd sydd wedi'u cynnal rhwng y Cynulliad a Chyngor Dinas a Sir Abertawe ynghylch datblygu gwelyau cregyn gleision yn Abertawe? (WAQ16148)

**Alun Cairns:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynghylch datblygu gwelyau cregyn gleision ym Mae Abertawe? (WAQ16149)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol am ganiatáu Gorchmynion Unigol a Rheoliadol dan Ddeddf Pysgodfeydd y Môr a Physgod Cragen 1967. Mae'r Gorchmynion hyn yn rhoi'r hawl i unigolyn neu sefydliad bysgota am rywogaeth benodol, mewn ardal benodol ac am gyfnod penodol. Y bwriad yw rheoli, meithrin a gwella'r bysgodfa. Mae wyth Gorchymyn o'r fath yn bodoli o gwmpas arfordir Cymru.

Yn dilyn ymholiad cyhoeddus lleol, yr wyf wedi cytuno i ganiatáu Gorchymyn Unigol newydd ar gyfer cregyn gleision ym mae Abertawe i Deepdock Ltd. Mae dau Orchymyn Unigol ym Mae Abertawe bellach—Gorchymyn Deepdock Ltd, a'r un a roddwyd yn 1995 i Mr C V Thomas, sydd wedi gwneud cais am adnewyddu ei Orchymyn. Mae cwmni lleol hefyd wedi cyflwyno cais am Orchymyn Unigol ym mae Abertawe, sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd rhwng Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Llywodraeth y Cynulliad i drafod Gorchmynion Unigol. Derbyniwyd nifer o sylwadau am gais Deepdock Ltd am Orchymyn Unigol.